

Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg

Ebrill 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, staff Awdurdodau Lleol, a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Proses yr ymgynghoriad/ymchwiliad

Gresynwn at y ffaith bod y ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at 'gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru' fel y brif gynulleidfa. Rhain yw'r sefydliadau y bydd y safonau'n berthnasol iddynt, ac felly mae'n naturiol bod llais ganddynt yn y broses hon.

Fodd bynnag mae datgan bod y ddogfen 'hefyd o ddi-ddordeb i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sefydliadau yma' yn awgrymu mai eilradd yn unig yw llais y defnyddiwr yn yr ymgynghoriad hwn. Mae UCAC o'r farn bod hynny'n gamsyniad sylweddol, ac yn codi cwestiynau ynghylch pwrpas a dull yr ymgynghoriad.

Yn ogystal, mae'r broses ymgynghorol yn ddryslud, a heb ddilyn prosesau arferol ymgynghori Llywodraeth Cymru. Nid yw'n glir ai Llywodraeth Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg sy'n cynnal yr ymgynghoriad/ymchwiliad hwn. Y Llywodraeth gyhoeddodd y ddogfen ymgynghorol; serch hynny, nid yw'r ddogfen ar gael yn adran 'Ymgynghoriadau' gwefan y Llywodraeth. Rhaid mynd i wefan Comisiynydd y Gymraeg i ddod o hyd i wybodaeth am sut i ymateb i'r ymgynghoriad - ond yna rhaid mynd oddi yno i wefan Llywodraeth Cymru i lawrlwytho'r ddogfen ymgynghorol.

Yn fyr, teimlwn fod y broses ymgynghorol ei hun yn ddiffygiol ac ni fyddem yn synnu pe byddai'r cyfraddau ymateb – yn enwedig o blith y cyhoedd - yn isel.

Statws, cynnwys a chwmpas y ddogfen ymgynghorol

Nid yw natur a statws y ddogfen yn gwbl glir. Ai dogfen ymgynghorol yw hon sy'n gosod rhai egwyddorion ar gyfer ennyn ymateb gyda'r bwriad o fod yn sail ar gyfer drafftio dogfen derfynol; neu ai fersiwn drafft sydd yma o ddogfen derfynol? Os felly, ai'r bwriad yw y bydd y ddogfen yn mynd at y sefydliadau dan sylw yn y fformat hwn - neu a yw'n ddogfen wedi'i dargedu (yn y fformat hwn, neu mewn fformat arall) at y cyhoedd? Mae hyn oll yn aneglur yn nogfennaeth yr ymgynghoriad.

Mae ieithwedd y ddogfen yn tueddu tuag at y technegol/cyfreithiol, ac yn gallu bod yn ddi-draidd mewn manau, heb ddefnyddio unrhyw enghreifftiau i geisio esbonio neu roi cyd-destun. Mae'n anaddas fel canllaw i'r cyhoedd sy'n eu hysbysu o'u hawliau.

Pryderwn yn ogystal am y bwch y mae'r Safonau'n ei adael mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi'n allanol, dan gontract, i Awdurdodau Lleol. Un enghraifft amlwg iawn ym myd addysg yw'r pedwar consortiwm rhanbarthol – a fyddan nhw'n ddarostyngedig i'r Safonau hyn drwy eu perthynas gyda'r Awdurdodau Lleol?

Dewislen Safonau

Awgrymir bod gan y sefydliadau dan sylw'r opsiwn o ddewis o blith y safonau arfaethedig mewn rhai achosion. Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn ei gwneud hi'n glir:

- ble yn union mae hawl gan sefydliad i ddewis o blith yr opsiynau, a ble nad oes hawl gwneud hynny
- ar ba sail caiff sefydliad ddewis y naill opsiwn dros y llall
- a oes llais gan y defnyddiwr
- ai dewis un opsiwn o blith nifer sy'n cael eu cynnig y mae'r sefydliadau i fod i wneud, neu ddewis sawl un ohonynt (cymaint ag sy'n bosib/ymarferol)
- beth yw'r mecanwaith ar gyfer symud sefydliad ymlaen tuag at y dewis uwch/cryfach/fwy heriol

Ymhellach i hynny, mae rhai o'r opsiynau a gynigir yn llawer rhy wan ym marn UCAC, ac o bosib yn wannach na gofynion y Cynlluniau Iaith presennol.

Rydym o'r farn bod y strwythur o safonau dewisol yn tanseilio uchelgais y ddogfen i greu cysondeb ledled Cymru, ac i ddarparu eglurder i'r defnyddwyr ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl o ran gwasanaethau gan y sefydliadau dan sylw.

Cyflwyniad

Byddem wedi hoffi cael rhagor o fanylder ynghylch sut yn union y bydd y 'safonau yn graddol gymryd lle'r system bresennol o gynlluniau iaith'. Dros ba gyfnod, ac yn dilyn pa broses neu fecanwaith y bydd hynny'n digwydd?

Er bod y Mesur yn darparu ar gyfer pum math penodol o safonau, nid ydym wedi ein darbwyllo bod defnyddio'r categorïau fel strwythur ar gyfer gosod y safonau yn y ddogfen hon yn helpu i wneud hyd a lled y safonau'n glir – ac yn sicr ddim i'r defnyddiwr.

Gwerthfawrogn y rhestr o egwyddorion - a chytunwn â phob un ohonyn nhw. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod y safonau arfaethedig yn cwrdd â'r egwyddorion sydd wedi'u gosod, yn arbennig felly mewn perthynas â hawliau clir i siaradwyr Cymraeg a chysondeb rhwng sefydliadau; nid ydym yn sicr ychwaith, ar ôl darllen y ddogfen ymgynghorol, sut y bwriedir i'r safonau gael eu 'gorfodi'n effeithiol'.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae UCAC yn bryderus am y derminoleg 'gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Er y gallwn ddychmygu bod hyn yn briodol o fewn rhai o'r sefydliadau dan sylw, mae'n gosod uchelgais y ddogfen ar lefel y gwanaf o'r sefydliadau – y cyfenwador lleiaf ('lowest common denominator'), fel petai. Nid yw'n cydnabod, heb sôn am fynd i'r afael â lefel yr uchelgais sydd ei angen ar gyfer eraill o'r sefydliadau yn eu plith. Mae UCAC o'r farn bod angen gwthio'r ffiniau tipyn ymhellach na'r safon negyddol hwn; rhaid gosod y bar yn uwch os am weld unrhyw welliant o gwbl.

Gohebiaeth: nid oes unrhyw gyfeiriad fan hyn at derfynau amser; mae UCAC yn gryf o'r farn y dylid cynnwys ymrwymiad i anfon ac ymateb i ohebiaeth yn y naill iaith a'r llall o fewn yr un terfynau amser.

Dywedir yn Safon 8 bod yn rhaid cynnwys datganiad 'na fydd ysgrifennu ... yn y Gymraeg, ohono'i hun, yn arwain at oedi wrth ddelio â'r ohebiaeth' – ond ni ddywedir yn unman yn y safonau bod yn rhaid sicrhau hynny.

Cyfarfodydd cyhoeddus: mae'r syniad o ofyn i bobl ymlaen llaw a ydynt am gyfrannu yn Gymraeg i gyfarfod cyhoeddus, yn un gwbl annerbyniol. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb yn llwyr ac yn drwm ar y siaradwyr Cymraeg, yn hytrach nag ar y sefydliad i ddarparu. Mae'n gwneud y gwrthwyneb o 'normaleiddio'r defnydd o'r iaith - mae'n gofyn i bobl ystyried ymlaen llaw pa iaith maent yn bwriadu ei defnyddio. Mae'n gofyn i bobl bwyso a mesur faint o gost mae'n mynd i olygu i'r sefydliad sy'n gofyn y cwestiwn iddynt, a phenderfynu faint o *niwsans* y maen nhw am fod drwy ddewis siarad yn y Gymraeg. Mae UCAC yn gadarn o'r farn bod angen ail-feddwl safonau 30-33 yn llwyr, ar sail yr egwyddor o gynnig gwasanaethau mewn dull rhagweithiol, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i fynnu gwasanaeth/darpariaeth.

Fel yn achos Safon 8 uchod, mae Safon 34 yn mynnu bod yn rhaid ei 'gwneud yn glir y croesewir ac yr hwylusir y defnydd o'r Gymraeg' - ond ni nodir sut yn union y dylai'r sefydliadau dan sylw fynd ati i groesawu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae angen bod yn fwy concrit.

Digwyddiadau cyhoeddus: mae'r cyfyngiad yma i 'ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu'n gyfan gwbl gan y sefydliad y mae'r safonau hyn yn gymwys iddo' yn cyfyngu'n ormodol ar bŵer y safon i ddylanwadu. Os oes digwyddiad cyhoeddus sy'n cael ei ariannu gan un o'r sefydliadau dan sylw, ond yn cael ei drefnu gan drydydd parti, dylai bod y safonau'n berthnasol - a'r un fath os yw digwyddiad wedi cael ei ariannu neu ei drefnu'n *rhannol* gan un o'r sefydliadau dan sylw.

Cyhoeddiadau: cred UCAC ei fod yn anhepgorol i ddatgan bod hawl gan randdeiliaid ymateb i ymgynghoriadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac i'r ymatebion hynny cael eu trin yn gydradd.

Safon 44: unwaith eto, rhoddir gormod o bwyslais ar ddefnyddwyr yn mynnu eu hawliau, yn hytrach na gwasanaeth a gynigir yn rhagweithiol ac fel 'norm'.

Ffurflenni: Safon 47: eto fan hyn, rhoddir gormod o bwyslais ar ddefnyddwyr yn mynnu eu hawliau, yn hytrach na gwasanaeth a gynigir yn rhagweithiol ac fel 'norm'.

Gwefannau a gwasanaethau ar-lein: Safon 51 - mae'r rheidrwydd i ddarparu tudalennau newydd yn unig yn opsiwn annerbyniol o wan.

Arwyddion: Safon 57 – mae hyn yn gymeradwy, ond dylai fod yn wir am bob elfen arall o'r Safonau yn ogystal (e.e. gohebiaeth, cyhoeddiadau, ffurflenni, gwefannau).

Derbyn ymwelwyr: Safonau 59-61 – er bod y safonau hyn yn ffordd o sicrhau bod aelod o'r cyhoedd yn derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg, maent oll yn rhoi'r person yn y sefyllfa o:

- orfod gofyn yn benodol am y gwasanaeth, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig fel norm
- o deimlo eu bod yn eithriad, ac yn rhyfedd ac yn niwsans, yn hytrach nag fel aelodau cyffredin, arferol o'r cyhoedd

Maent yn gorfodi pobl i wneud safiad os ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg, ac maent yn troi'r iaith mewn i 'issue'. Mae hyn yn mynd i'r gwrthwyneb yn llwyr â'r arfer dda y dylai'r safonau fod yn anelu at ei sefydlu, sef normaleiddio'r iaith.

Hysbysiadau swyddogol: credwn ei fod yn bwysig crybwyll amseru cyhoeddi hysbysiadau swyddogol, a'r gofyniad i gyhoeddi yn y naill iaith a'r llall ar yr un pryd.

Safonau gweithredu

Cyflwyniad: mae'r adran hon yn anodd iawn ei dehongli; byddai enghreifftiau yn help.

Gweinyddiaeth fewnol: Safon 96 – rydym o'r farn y byddai'n rhesymol i'r sefydliadau dan sylw gyhoeddi pob polisi yn y ddwy iaith.

TGCh a deunyddiau cymorth: mae Safonau 103 a 104 yn eithriadol o wan.

Recriwtio: Safon 112 – nid gwybodaeth yn unig am gyfweliadau neu ddulliau asesu ddylai fod yn Gymraeg – ond y cyfweliadau a'r dulliau asesu eu hunain.

Safonau cadw cofnodion

Mewn perthynas â Safonau 131-134, rydym o'r farn y dylid cadw cofnod o unrhyw gwynion – boed y rheini'n ysgrifenedig, neu ar lafar.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com